| | (b)<br><br>*DD2*<br><br>*(2.1)* | *Trafodwch sut mae cael mynediad i dabled electronig yn gallu cael effaith gadarnhaol ac effaith negyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **6** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1-2 marc** am drafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae cael mynediad i dabled electronig yn gallu cael effaith gadarnhaol ac effaith newyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.<br>**Dyfarnwch 3-4 marc** am drafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae cael mynediad i dabled electronig yn gallu cael effaith gadarnhaol ac effaith newyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.<br>**Dyfarnwch 5-6 marc** am drafodaeth dda iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae cael mynediad i dabled electronig yn gallu cael effaith gadarnhaol ac effaith newyddol ar ddysgu a datblygiad plentyn.<br><br>Dyfarnwch uchafswm o 4 marc os yw'r ymateb yn trafod effeithiau cadarnhaol **yn unig neu** effeithiau negyddol **yn unig**.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br><br>**Effaith gadarnhaol:**<br>• adnodd hynod ysgogol oherwydd sgrin lachar, hynod ryngweithiol, modern, cyfoes, ac ati<br>• meithrin sgiliau echddygol manwl<br>• yn gwella'r eirfa<br>• yn datblygu sgiliau mathemategol<br>• yn gallu gwella rhyngweithio cymdeithasol: apiau/gemau rhyngweithiol<br>• yn gallu meithrin dychymyg a chreadigrwydd<br>• yn gwneud dysgu'n hwyl<br>• nid yw'r dysgu wedi'i gyfyngu i'r cartref gan ei bod yn bosibl cludo'r dabled o gwmpas<br>• gellir diweddaru gemau/apiau felly mae'n annog cynnydd ac yn newid yr ysgogiadau<br>• yn gallu annog datblygiad y dychymyg<br>• yn helpu i ddatblygu ymddygiad holi ac arbrofi. | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| | | **Effaith negyddol:**<br>• mae'n gallu cael ei orddefnyddio, ni ddylai gymryd lle teganau eraill sy'n cefnogi dysgu a datblygiad<br>• rhaid i'r gemau/apiau fod yn briodol i oedran y plentyn<br>• yn gallu effeithio ar lesiant meddyliol<br>• gall mwy o fynediad i ddyfeisiau greu pwysau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol/pwysau cymheiriaid cysylltiedig<br>• mae'n gallu datblygu sgiliau ond nid yw'n cynnig llawer o gyfle i wneud gweithgareddau corfforol<br>• yn ôl rhai darnau o ymchwil mae defnyddio'r rhain yn rhy agos at amser gwely yn gallu effeithio ar batrymau cysgu<br>• gall diogelu/e-ddiogelwch fod yn broblem e.e. gadael plentyn heb oruchwyliaeth wrth ddefnyddio'r ddyfais, dim rheolaeth briodol gan y rhieni, cyrchu safleoedd amhriodol ac ati<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>Cyfanswm y Marciau</th></tr>
<tr><td>3.</td><td>DD2<br><br>(2.3)</td><td>Mae Iwan yn 3 oed ac yn unig blentyn. Cymraeg yw iaith y teulu ac maen nhw'n byw mewn cymuned glòs. Mae Iwan yn blentyn tawel iawn sy'n mwynhau cymryd rhan mewn rygbi mini.<br><br>Mae mam Iwan yn ystyried dau ddewis ar gyfer ei addysg.<br><br>Opsiwn 1: Ysgol 3-19 oed cyfrwng Cymraeg newydd fawr yn agos i'w cartref.<br>Opsiwn 2: Addysg yn y cartref.<br><br>Aseswch y manteision posibl pob dewis yn ei gael ar iechyd, llesiant a datblygiad Iwan yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn yn ei fywyd.<br><br>Dyfarnwch hyd at 6 marc.<br><br>Dyfarnwch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>Dyfarnwch 1-2 farc am ymateb sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth nac asesiad o fanteision posibl pob lleoliad ar ddatblygiad Iwan.<br>Dyfarnwch 3-4 farc am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ac asesiad o fanteision posibl pob lleoliad ar ddatblygiad Iwan.<br>Dyfarnwch 5-6 marc am ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ac asesiad manwl o fanteision posibl pob lleoliad ar ddatblygiad Iwan.<br><br>Dyfarnwch uchafswm o 4 marc os yw'r ymateb yn ystyried un lleoliad yn unig.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br><br>Ysgol 3–19 oed cyfrwng Cymraeg fawr, newydd:<br>• byddai rhyngweithio cymdeithasol yn bosibl â phlant eraill o bob oed<br>• gall fod cyfleoedd ehangach i ddysgu<br>• fframwaith y cwricwlwm fydd sail y dysgu<br>• bydd angen cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod yr addysgu i safon<br>• meysydd chwarae ar gael – mae'n bosibl y bydd timau chwaraeon mini yn yr ysgol<br>• bydd dewis eang o adnoddau ar gael i gefnogi meysydd y cwricwlwm<br>• bydd trefn bendant yn y lleoliad<br>• cyfle i fynd ar wibdeithiau meithrinfa, teithiau, gweithgareddau allgyrsiol<br>• hybu dwyieithrwydd/cefnogi'r Gymraeg yn llawn<br>• llai o drawsnewid gan fod yr ysgol yn mynd o 3 i 19 oed<br>• yn helpu Iwan i ddysgu ymddygiad priodol mewn amgylchedd penodol<br>• gall helpu llesiant drwy gymdeithasu â chymheiriaid.</td><td>6</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Addysg yn y cartref**:<br>• Gall addysg Iwan gael ei theilwra i'w anghenion a'i ddiddordebau<br>• gall addysg 'bywyd go iawn' fod yn flaenllaw (coginio, siopa, glanhau, garddio) | |

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| | | • Bydd Iwan a'i fam yn cael y rhyddid a'r hyblygrwydd i gynnwys dysgu fel rhan o beth bynnag arall sy'n digwydd<br>• gall atgyfnerthu perthnasoedd teuluol<br>• bydd yn gwneud Iwan yn fwy annibynnol; dysgu ar ei gyflymder ei hun<br>• gall ehangu'r cyfle i gymdeithasoli gan ei fod yn gallu cymysgu ag amrywiaeth ehangach o bobl na'i ffrindiau yn y dosbarth yn unig<br>• gall sicrhau mai moesau a gwerthoedd y teulu sydd fwyaf amlwg<br>• yn caniatáu cyfle i gaffael iaith/datblygu dewis.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | |

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>Cyfanswm y Marciau</th></tr>
<tr>
<td>4.</td>
<td>(a)<br><br>(i)<br><br>(ii)<br><br>DD4 (4.1)</td>
<td>
Mae merch gan y teulu Davies, sef Gwen sy'n 5 oed. Mae mab ganddyn nhw hefyd, sef Daniel sy'n 2 oed. Mae asthma difrifol ar Daniel sy'n golygu ei fod yn cael heintiau ar y frest yn aml ac weithiau mae'n cael problemau anadlu. Mae'n bwysig iawn bod mynediad i amrywiaeth o wasanaethau ar gael i'r teulu.
Enwch un gwasanaeth iechyd bydd angen i'r teulu gael mynediad iddo o bosibl.
Dyfarnwch 1 marc am enwi gwasanaeth sydd i'w weld yn y tabl isod.
Amlinellwch y manteision i'r teulu o ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.
Dyfarnwch hyd at 2 farc.
Dyfarnwch 0 marc os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>
Dyfarnwch 1 marc am ymateb sylfaenol heb fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o fanteision cael mynediad i'r gwasanaeth.<br>
Dyfarnwch 2 farc am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision cael mynediad i'r gwasanaeth.
Gall yr ymateb gyfeirio at:
<table>
<tr><th>(i) Gwasanaeth iechyd wedi'i enwi</th><th>(ii) Manteision y gwasanaeth i'r teulu</th></tr>
<tr><td>Canolfan Iechyd</td><td>Derbyn presgripsiwn, cael cyngor meddygol, derbyn triniaeth am fân anafiadau, monitro cyflyrau parhaus.</td></tr>
<tr><td>Clinig Babanod</td><td>Derbyn imiwneiddiadau ac archwiliadau datblygiad.</td></tr>
<tr><td>Gwasanaethau ysbyty</td><td>Cael mynediad i wasanaethau argyfwng a mynychu apwyntiadau gydag arbenigwyr.</td></tr>
<tr><td>Clinig cynllunio teulu</td><td>Cael dulliau atal cenhedlu a chyngor merched iach ar gyfer y fam.</td></tr>
<tr><td>Deintydd</td><td>Sicrhau hylendid da yn y geg ac iechyd deintyddol da, e.e. wrth golli dannedd baban.</td></tr>
<tr><td>Optegydd</td><td>Sicrhau iechyd llygaid da, rhagnodi sbectol yn ôl yr angen.</td></tr>
</table>
Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>
Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall.
</td>
<td>3</td>
</tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| | (b)<br><br>*DD4 (4.1)* | *Mae'n bosibl bydd angen i bob plentyn gael mynediad i fathau gwahanol o wasanaethau gofal iechyd yn ystod cyfnodau gwahanol eu bywydau.*<br><br>*Nodwch **ddau** o'r gwasanaethau sydd ar gael gan y proffesiynau perthynol i iechyd (allied health professions) fyddai'n gallu cefnogi iechyd, llesiant, twf a datblygiad plant.*<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am bob gwasanaeth a nodir hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• podiatreg<br>• therapi iaith a lleferydd<br>• therapi galwedigaethol<br>• deieteg<br>• ffisiotherapi<br>• awdioleg<br>• orthopteg<br>• therapi celf/therapi cerdd/therapi drama/therapi chwarae<br><br>Rhowch gredyd am ymatebion sy'n cyfeirio at y gweithiwr proffesiynol e.e. podiatregydd/deietegydd. | 2 |
| | (c)<br><br>*(4.1)* | *Enwch **un** rhwystr fyddai'n gallu atal plentyn rhag cael gwasanaeth sydd ei angen arno.*<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am enwi rhwystr.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• stigma<br>• rhwystrau corfforol<br>• problemau trafnidiaeth<br>• argaeledd y gwasanaethau<br>• ariannol (efallai na fydd y gwasanaeth am ddim).<br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | 1 |
| | (ch)<br><br>*(4.1)* | *Esboniwch ystyr atgyfeiriad uniongyrchol.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **3** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1 marc** am esboniad sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o ystyr atgyfeiriad uniongyrchol.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am esboniad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ystyr atgyfeiriad uniongyrchol.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ystyr atgyfeiriad uniongyrchol.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• atgyfeiriad wedi'i wneud gan unigolyn sy'n cael mynediad i wasanaeth drwy gyrraedd lleoliad yn annisgwyl neu wneud apwyntiad ei hun heb gynnwys neb arall, e.e. gwneud apwyntiad gyda meddyg teulu drwy ffonio'r feddygfa<br>• atgyfeiriad wedi'i wneud gan feddyg teulu neu unrhyw weithiwr | 3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | iechyd, gofal cymdeithasol neu wasanaethau brys proffesiynol arall, e.e. meddyg teulu sy'n atgyfeirio plentyn at ddeietegydd<br>• pan fydd rhiant neu warcheidwad yn trefnu mynediad i'w blentyn sydd o dan 16 oed<br>• gall fod yn hunanatgyfeiriad neu'n atgyfeiriad proffesiynol. | |
| 5. | DD4<br><br>*(4.2)* | *Mae Jon, sy'n 14 oed, yn byw gyda ffibrosis cystig. Ar adegau, mae angen ffisiotherapi rheolaidd arno a mynediad i amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd.*<br>*Mae Jon yn byw mewn pentref tawel yn y wlad gyda'i rieni a'i frodyr a chwiorydd iau. Mae car gan y teulu ac maen nhw'n mwynhau mynd i ffwrdd ar deithiau.*<br>*Trafodwch sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i Jon a'i deulu i hybu iechyd, llesiant a datblygiad.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **5** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1 marc** am drafodaeth gyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i Jon a'i deulu i hybu iechyd, llesiant a datblygiad.<br>**Dyfarnwch 2-3 marc** am drafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i Jon a'i deulu i hybu iechyd, llesiant a datblygiad.<br>**Dyfarnwch 3-4 marc** am drafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i Jon a'i deulu i hybu iechyd, llesiant a datblygiad.<br>**Dyfarnwch 5 marc** am drafodaeth wych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu rhoi'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i Jon a'i deulu i hybu iechyd, llesiant a datblygiad.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>Sut byddai gweithio amlasiantaethol yn gallu darparu gofal a chymorth:<br>• gofal di-dor/gofal mwy cyd-gysylltiedig – yn bodloni anghenion penodol Jon a'i deulu<br>• gwasanaeth cyflymach a mwy effeithlon<br>• dim ailadrodd tasgau gan fod pawb yn gwybod beth mae'r llall yn ei wneud<br>• cyfeirio o fewn y system<br>• ymyrraeth amserol<br>• bydd Jon a'i deulu'n cael gweld y person cywir ar yr adeg gywir<br>• llai o wastraffu amser yn cyfathrebu rhwng y gwasanaethau a'r teulu a rhwng timau gwahanol yn y sector.<br><br>Gall gwasanaethau gael eu henwi fel rhan o'r drafodaeth:<br><br>• gofal iechyd: paediatregydd, tîm iechyd meddwl, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol ac ati<br>• gofal cymdeithasol: clybiau plant, teithiau diwrnod | 5 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • gofal seibiant: Barnado's, cynorthwyydd teulu.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| 6. | (a)<br><br>*DD4 (4.1)* | *Mae grant dillad yn un o sawl budd-dal ariannol sydd ar gael i hybu cynhwysiant.*<br><br>Nodwch **un** math arall o gefnogaeth ariannol sydd ar gael i hybu cynhwysiant.[1]<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am enwi un math o gefnogaeth ariannol o'r rhestr isod:<br><br>• prydau ysgol am ddim<br>• cynnig gofal plant<br>• gofal plant di-dreth<br>• Credyd Cynhwysol. | 1 |
| | (b)<br><br>*DD4 (4.1)* | *Disgrifiwch sut byddai grant dillad yn gallu cefnogi iechyd a llesiant plentyn.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **3** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1 marc** am ddisgrifiad sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o sut byddai grant dillad yn gallu cefnogi iechyd a llesiant plentyn.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai grant dillad yn gallu cefnogi iechyd a llesiant plentyn.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai grant dillad yn gallu cefnogi iechyd a llesiant plentyn.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• manteision iechyd corfforol e.e. y plentyn wedi'i wisgo'n addas er mwyn bod yn ddigon cynnes – osgoi mynd yn sâl ac ati<br>• manteision iechyd meddwl: y plentyn yn gwisgo'r un dillad â phlant eraill yn y lleoliad – yn osgoi bwlio, y plentyn ddim eisiau mynd i'r lleoliad ac ati<br>• manteision deallusol: nid oes rheswm i'r plentyn beidio â mynd i'r lleoliad, mae'n rhaid gwario'r grant ar ddillad<br>• hunaniaeth – effaith gadarnhaol ar lesiant<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | 3 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| 7. | (a)<br><br>*DD2*<br>*(2.2)* | *8 o'r gloch y bore yw hi ym Meithrinfa Dechrau'n Deg Sunshine ac mae pob aelod o staff yn brysur yn gosod darnau amrywiol o ddarpariaeth barhaus ar gyfer y plant. Thema'r mis yw babanod, gan fod tri o'r plant wedi cael brawd neu chwaer fach yn ddiweddar. Mae'r staff wedi ystyried y mathau o adnoddau sydd eu hangen ac wedi ychwanegu doliau, tyweli, cewynnau a golch bath ger yr ardal ddŵr. Maen nhw hefyd wedi addasu'r ardal chwarae rôl i fod yn glinig babanod. Mae'r plant yn cael dewis pa weithgaredd maen nhw am gymryd rhan ynddo.*<br><br>*Nodwch* ***dri*** *ffactor dylid rhoi ystyriaeth iddyn nhw wrth gynllunio darpariaeth barhaus.*<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am bob ffactor i'w ystyried hyd at uchafswm o 3 marc o'r rhestr isod:<br><br>• oed<br>• gallu<br>• thema<br>• anghenion y plentyn<br>• cyfleoedd dysgu<br>• cymarebau staffio. | 3 |
| | (b)<br><br>*DD2*<br><br>*(2.2)*<br>*(2.1)* | *Nodwch* ***ddau*** *arwydd sy'n dangos bod y feithrinfa yn hybu datblygiad cyfannol.*<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am bob arwydd a nodir bod y feithrinfa yn hybu datblygiad cyfannol, hyd at uchafswm o 2 farc, o'r rhestr isod:<br><br>• dewis o weithgareddau<br>• dewis rhydd<br>• gweithgareddau sy'n cefnogi'r trawsnewid<br>• amrywiaeth o adnoddau i wella gweithgareddau/amgylchedd<br>• addasu'r amgylchedd. | 2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| | (c)<br><br>*DD3*<br><br>*(3.1)* | *Disgrifiwch y fenter Dechrau'n Deg.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **5** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1-2 farc** am ddisgrifiad sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth am fenter Dechrau'n Deg.<br>**Dyfarnwch 3-4 marc** am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am fenter Dechrau'n Deg.<br>**Dyfarnwch 5 marc** am ddisgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am fenter Dechrau'n Deg.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• menter llywodraeth Cymru yw hwn<br>• mae'n targedu ac o fudd i blant yn ardaloedd difreintiedig Cymru<br>• mae'n adeiladu ar gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plentyn a'i deulu<br>• mae'n sicrhau bod lleoliadau newydd/lleoedd ychwanegol ar gael mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf<br>• mae'n sicrhau bod lleoliad plant yn gweithio gyda'r teulu cyfan – dull cefnogi ychwanegol<br>• mae'n cynnig rhaglenni hyfforddi rhieni<br>• mae'n meithrin cysylltiadau agos ag asiantaethau eraill – ymweliadau iechyd, iaith a lleferydd, deieteteg<br>• mae'n canolbwyntio ar hybu datblygiad plentyn<br>• mae'n sicrhau bod anghenion unigol y plentyn yn cael eu bodloni – darpariaeth plentyn-ganolog.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | 5 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| 8. | (a)<br><br>*DD3*<br><br>*(3.1)* | *Er mwyn cwrdd â safonau Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'n rhaid i bob lleoliad gofal plant wedi'i gofrestru yng Nghymru gael polisïau allweddol yn eu lle.*<br><br>*Un enghraifft o bolisi allweddol yw polisi amddiffyn plant.*<br><br>*Enwch **ddau** bolisi allweddol arall sy'n cael effaith ar leoliadau gofal plant yng Nghymru.*<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am bob polisi allweddol a enwir hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• rheoli ymddygiad<br>• amddiffyn plant<br>• iechyd a diogelwch<br>• diogelwch tân<br>• cyfleoedd cyfartal<br>• cwynion<br>• gweithdrefn yn ymwneud â phlentyn coll/ar goll/heb ei gasglu<br>• newid cewynnau<br>• datganiad o bwrpas<br>• polisi meddyginiaeth<br>• polisi cyfrinachedd<br>• polisi bwlio.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | 2 |
| | (b)<br><br>*DD3*<br><br>*(3.1)* | *Esboniwch beth yw pwrpas cael polisi amddiffyn plant mewn lleoliad gofal plant.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **6** marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1-2 farc** am esboniad sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o bwrpas *polisi amddiffyn plant* mewn lleoliad gofal plant.<br>**Dyfarnwch 3-4 marc** am esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas *polisi amddiffyn plant* mewn lleoliad gofal plant.<br>**Dyfarnwch 5-6 marc** am esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o bwrpas *polisi amddiffyn plant* mewn lleoliad gofal plant.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel yn y lleoliad/llai o risgiau y bydd pethau'n digwydd | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i wneud atgyfeiriad os oes amheuaeth neu os yw'n cael ei ddatgelu bod cam-drin yn digwydd<br>• amlinellu'r gadwyn atgyfeirio – pwy yw'r swyddog diogelu a gwybod beth yn union i'w wneud os bydd datgeliad a sut i ymddwyn mewn sefyllfa sensitif<br>• sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod ei rôl a'i gyfrifoldebau wrth gadw plant yn ddiogel – Loco Parentis (bod yn gyfrifol am les plentyn pan fo yn ein gofal)<br>• cadw pob plentyn yn ddiogel rhag niwed ac ecsbloetiaeth –<br>• sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithredu'n gyson (dilyn gweithdrefnau safonol)<br>• sicrhau bod pob pryder yn cael sylw ac yn cael ei uwchgyfeirio'n effeithiol ac yn effeithlon/nad oes dim yn cwympo drwy'r rhwyd<br>• sicrhau bod pob aelod o staff yn ddiogel ac yn cael ei warchod yn ei rôl<br>• sicrhau bod gan deuluoedd/gofalwyr hyder yn y gwasanaeth.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|---|
| 9. | *DD4 (4.2)* | *Sara yw'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn Ysgol Cae Glas. Mae hi'n mwynhau'r rôl hon am ei bod yn gweithio gyda thîm o staff a nifer o ddisgyblion o flwyddyn 7 i flwyddyn 11.*<br><br>*Trafodwch sut mae rôl Sara yn gallu cefnogi staff a dysgwyr ag anghenion ychwanegol i weithio tuag at gyflawni eu potensial llawn.*<br><br>Dyfarnwch hyd at 5 marc.<br><br>**Dyfarnwch 0 marc** os nad yw'r ymateb yn haeddu ennill marciau.<br>**Dyfarnwch 1-2 farc** am drafodaeth sylfaenol heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o rôl y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at gyflawni eu potensial llawn.<br>**Dyfarnwch 3-4 marc** am drafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at gyflawni eu potensial llawn.<br>**Dyfarnwch 5 marc** am drafodaeth dda iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o rôl y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wrth gynorthwyo dysgwyr ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at gyflawni eu potensial llawn.<br><br>Gall yr ymateb gyfeirio at:<br>• asesu disgyblion er mwyn nodi anghenion, a gosod disgyblion ar y gofrestr anghenion ychwanegol os oes angen.<br>• dyrannu gweithwyr allweddol priodol i weithio gyda'r disgyblion<br>• llunio ac adolygu Cynlluniau Addysg Unigol a sicrhau bod staff yn ymwybodol ohonyn nhw<br>• sicrhau ffyrdd cyson o weithio gyda'r disgyblion<br>• rhoi gwybod i rieni am unrhyw benderfyniadau a chamau gweithredu yn dilyn cynllun gweithredu'r ysgol<br>• gweithio gyda rhieni er mwyn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu<br>• sicrhau bod dull plentyn-ganolog yn cael ei ddefnyddio<br>• trefnu cefnogaeth un i un er mwyn diwallu unrhyw anghenion ychwanegol<br>• sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn polisïau a deddfwriaeth, e.e. polisi cynhwysiant, Deddf Cydraddoldeb<br>• gofyn am gyfarpar ac adnoddau arbenigol ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol<br>• cysylltu ag asiantaethau allanol am gefnogaeth, fel SALT (Therapydd Iaith a Lleferydd) Gweithredu gan yr Ysgol a | 5 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mwy<br>• rhannu gwybodaeth â phob parti perthnasol er mwyn sicrhau bod pawb yn wybodus – gall arwain at weithio amlasiantaethol effeithlon o ansawdd<br>• hwyluso cydweithio fel bod modd adnabod ac ymyrryd yn gynnar<br>• hwyluso cyfarfodydd rheolaidd er mwyn manteisio ar arbenigedd cyfunol o amrywiaeth o asiantaethau fel iechyd, addysg ac unrhyw un mae ei swydd neu rôl wirfoddol yn golygu ei fod mewn cysylltiad â'r plentyn, (blwyddyn 7 – blwyddyn 11) neu ei deulu<br>• annog rhannu arfer da rhwng pob asiantaeth dan sylw a rhoi'r diweddaraf am gynnydd – strategaeth ataliol er mwyn sicrhau gwelliant gwirioneddol i ganlyniadau bywyd<br>• sefydlu a mynychu paneli atgyfeirio disgyblion lle gellir cynnal trafodaethau i sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i bob plentyn.<br><br>Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.<br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb perthnasol arall. | |
| | | **CYFANSWM** | 70 |

© WJEC CBAC Ltd.

# Mapio – Grid Cyfeirio Cyflym

| Deunyddiau Asesu Enghreifftiol 2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn | DD1 | DD2 | DD3 | DD4 |
| 1. (a) | ✓ | | | |
| (b) | ✓ | | | |
| (c) | ✓ | | | |
| 2. (a) | ✓ | | | |
| (b) | | ✓ | | |
| 3. | | ✓ | | |
| 4. (a) | | | | ✓ |
| (b) | | | | ✓ |
| 5. | | | | ✓ |
| 6. (a) | | | | ✓ |
| (b) | | | | ✓ |
| 7. (a) | | ✓ | | |
| (b) | | ✓ | | |
| (c) | | | ✓ | |
| 8. (a) | | | ✓ | |
| (b) | | | ✓ | |
| 9. | | | | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd.

**Dogfen Fapio: Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu | DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL asesiad allanol | Rhif y cwestiwn | Nifer y marciau | Cyfanswm marciau pob DD a % y pwysoli | Marciau ystod leiaf pob DD a % y pwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bydd y dysgwr yn: | Mae'r dysgwr yn gallu: | | | | | |
| **DD1** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad corfforol, deallusol (gwybyddol), iaith, emosiynol a chymdeithasol plant o adeg cenhedlu hyd at 1 oed | **MPA1.1** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol twf a datblygiad corfforol | ✓ | **1 (a) (i)** | **1** | **17 marc**<br>**25%** | **14-17 marc**<br>**20-25%** |
| | **MPA1.2** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad deallusol (gwybyddol) | ✓ | **1b)** | **4** | | |
| | **MPA1.3** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad iaith | ✓ | **1 (a) (ii)** | **1** | | |
| | **MPA1.4** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad emosiynol | | | | | |
| | **MPA1.5** Cyfnodau a phatrymau cyffredinol o ddatblygiad cymdeithasol | ✓ | **1 (a) (ii)**<br>**2 (a)** | **1**<br>**4** | | |
| | **MPA1.6** Natur gyfannol datblygiad plant 0-19 oed | ✓ | **1 (c)** | **6** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu | DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL asesiad allanol | Rhif y cwestiwn | Nifer y marciau | Cyfanswm marciau pob DD a % y pwysoli | Marciau ystod leiaf pob DD a % y pwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bydd y dysgwr yn: | Mae'r dysgwr yn gallu: | | | | | |
| **DD2** Sut gall amgylcheddau dysgu helpu a chefnogi iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion plant o 0 i 19 oed | **MPA2.1** Sut gall amgylcheddau ac adnoddau helpu datblygiad cyfannol plant | ✓ | 1 (c)<br>7 (b) | 6<br>2 | 17 marc<br>25% | 17-21 marc<br>25-30% |
| | **MPA2.2** Ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gweithgareddau a'r amgylchedd ar gyfer plant ar gyfnodau gwahanol o ddatblygiad, mewn gwahanol leoliadau gofal plant | ✓ | 7 (a) | 3 | | |
| | **MPA2.3** Dylanwad posibl lleoliadau blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant ar ddatblygiad plentyn | ✓ | 3 | 6 | | |
| **DD3** Effaith deddfwriaeth mewn perthynas â phob math o leoliadau chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru | **MPA3.1** Gwerth ac effaith deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau a mentrau cyfredol y llywodraeth yng Nghymru | ✓ | 7 (c)<br>8 (a)<br>8 (b) | 5<br>2<br>6 | 13 marc<br>18% | 10-14 marc<br>15-20% |

© WJEC CBAC Ltd.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu | DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL asesiad allanol | Rhif y cwestiwn | Nifer y marciau | Cyfanswm marciau pob DD a % y pwysoli | Marciau ystod leiaf pob DD a % y pwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bydd y dysgwr yn: | Mae'r dysgwr yn gallu: | | | | | |
| **DD4** Rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru er mwyn helpu i ddiwallu anghenion plant o ran gofal, iechyd, llesiant a datblygiad | **MPA4.1** Rôl a manteision gwasanaethau y mae plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael mynediad iddyn nhw i gefnogi iechyd a llesiant | ✓ | *4 (a)<br>4 (b)<br>4 (c)<br>4 (ch)<br>5<br>6 (a)<br>6 (b) | 3<br>2<br>1<br>3<br>5<br>1<br>3 | **23 marc**<br>**33%** | **19-23 marc**<br>**28-33%** |
| | **MPA4.2** Sut gall rhanddeiliaid allweddol gefnogi plant (a'u teuluoedd/gofalwyr) sy'n byw ag amrywiaeth o anableddau ac anghenion ychwanegol | ✓ | 9 | 5 | | |
| | | | **Cyfanswm y Marciau** | **70** | **70** | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Dogfen Fapio**

| | | Y gofynion asesu | | | DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL | Haf 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn | Dyraniad marciau | (a) | (b) | (c) | Math o gwestiwn/berfau gorchmynnol | |
| 1. (a)<br><br>(b)<br>(c) | 3<br><br>4<br>6 | ✓<br><br>✓ | <br><br>✓ | <br><br><br>✓ | Cwblhewch siart – nodi maes datblygu.<br>Esboniwch<br>Dadansoddwch | |
| 2. (a)<br>(b) | 4<br>6 | | ✓<br>✓ | | Disgrifiwch<br>Trafodwch | |
| 3. | 6 | | | ✓ | Aseswch | |
| 4. (a)<br>(b)<br>(c)<br>(ch) | 3<br>2<br>1<br>3 | ✓<br>✓<br>✓ | ✓<br><br><br>✓ | | Enwch ac Amlinellwch<br>Nodwch<br>Enwch<br>Esboniwch | |
| 5. | 5 | | ✓ | | Trafodwch | |
| 6. (a)<br>(b) | 1<br>3 | ✓ | <br>✓ | | Dywedwch<br>Disgrifiwch | |
| 7. (a)<br>(b)<br>(c) | 3<br>2<br>5 | ✓ | <br>✓<br>✓ | | Dywedwch<br>Nodwch<br>Disgrifiwch | |
| 8. (a)<br>(b) | 2<br>6 | ✓ | <br>✓ | | Enwch<br>Esboniwch | |
| 9. | 5 | | | ✓ | Trafodwch | |

Mae'r holl ferfau gorchmynnol a ddefnyddir yn y deunyddiau asesu enghreifftiol wedi'u profi gyda rhanddeiliaid a theimlwyd eu bod yn briodol.

Defnyddir y ddogfen fapio i sicrhau cymaroldeb ar draws pob papur byw.



© WJEC CBAC Ltd.